**Cofnodion Grŵp Trawsbleidiol**

**Digwyddiad y Grŵp Trawsbleidiol ar Gleifion a Gweithwyr Proffesiynol**

**19 Hydref 2017 12.30pm-2pm Ystafelloedd Cynadledda C a D, Tŷ Hywel**

## 1. Trosolwg o'r digwyddiad

Ar gyfer y cyfarfod hwn, penderfynwyd cynnal cyfarfod arbennig o'r grŵp trawsbleidiol a chynnal digwyddiad i gleifion a gweithwyr proffesiynol lle gallai Aelodau'r Cynulliad ddod draw a sgwrsio am y prif faterion sy'n wynebu cleifion canser. Cafodd yr ystafell ei gosod gyda byrddau'n ymdrin â gwahanol rannau o'r llwybr canser – atal, diagnosis, triniaeth, byw gyda chanser a thu hwnt, gofal diwedd oes, plant a phobl ifanc, ac ymchwil.

Roedd cynrychiolydd cleifion ar bob bwrdd i siarad am eu profiad o'r thema honno, yn ogystal ag un gweithiwr proffesiynol gofal iechyd neu ymchwilydd.

Roedd elusennau o Gynghrair Canser Cymru hefyd yng nghefn yr ystafell i ddarparu rhagor o wybodaeth a deunydd darllen.

Fe wnaethom hefyd dynnu lluniau o Aelodau'r Cynulliad ac ysgrifennu datganiad i'r wasg iddynt ei ddefnyddio.

Daeth llawer o Aelodau Cynulliad i'r digwyddiad ac rydym mor ddiolchgar am ba mor hir y gwnaethant yn aros yn y digwyddiad yn trafod amryw faterion gyda chleifion a gweithwyr proffesiynol. Roedd y trafodaethau'n cynnwys: y rhwystrau y mae ymchwilwyr yn eu hwynebu a pham mae eu gwaith mor bwysig, yr angen i bob claf canser gael cynllun gofal ysgrifenedig, pwysigrwydd gwneud mwy i atal mwy o fathau o ganser, ac i ganser gael ei ddiagnosio'n gynt.

Efallai y byddwn yn ceisio gwneud digwyddiad fel hwn unwaith y flwyddyn fel cyfarfod arbennig o'r Grŵp Trawsbleidiol ar Ganser.

## 2. Cynrychiolwyr

Cawsom nifer o gynrychiolwyr o elusennau canser, ymchwilwyr, nyrsys, cleifion a Rhwydwaith Canser Cymru:

Siân Whelan, Awen Gallimore, Duncan Baird, Carol Bunyan, Deborah Richardson, Kathy Seddon, Matt Smalley, Kevin Leach, Annmarie Nelson, Lisa Love-Gould, Helen Ludlow, Steven Macey, Sue Davies, Enzo Di Battista, Louise Dunk, Andrea Thomson, Kate Brain, Clare Bath, Andy Glyde, Greg Pycroft, Sasha Daily, Alicia Roberts, Andrew Seggie.

Aelodau'r Cynulliad:

David Rees AC

Jayne Bryant AC

Eluned Morgan AC

Jeremy Miles AC

Jane Hutt AC

Swyddfa Julie Morgan

Jenny Rathbone AC

John Griffiths AC

Andrew RT Davies AC

Huw Irranca-Davies AC

Mark Isherwood AC